**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Cysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru**

**Medi 2012**

---

Mae 19 o argymhellion yn yr adroddiad. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio ar ddefnyddio porthladdoedd a meysydd awyr i ysgogi'r economi ac ar wella cysylltiadau trafnidiaeth â phorthladdoedd a maes awyr Caerdydd. Am fod nifer fawr o'r meysydd polisi heb eu datganoli, ac am fod gan borthladdoedd a meysydd awyr berchnogion preifat, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod yr argymhellion yn ganlyniadau yr hoffai eu gweld yn cael eu cyflawni.

**Isod ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad.**

**Argymhelliad 1 –** Dylai Llywodraeth Cymru geisio dylanwadu ar y fframwaith hedfan a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU cyn bo hir fel ei fod yn cydnabod potensial Maes Awyr Caerdydd wrth ymdrin ag angen y DU am gapasiti meysydd awyr a hefyd yn ateb anghenion busnesau a theithwyr Cymru.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae polisi drafft ar hedfan wedi'i gyhoeddi ac mae trafodaethau wedi'u cynnal.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 2 –** Dylai Llywodraeth Cymru lunio safbwynt clir, strategol, seiliedig ar dystiolaeth, er datblygu trafnidiaeth awyr yng Nghymru, a'i seilio ar asesiad trylwyr o effaith economaidd hedfan yng Nghymru. Dylai nodi ymhle mae angen gwasanaethau hedfan, pa fath o lwybrau all gefnogi amcanion datblygu economaidd cynaliadwy Cymru, a beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Sefydlwyd Tasglu Maes Awyr Caerdydd i ystyried dyfodol y maes awyr er mwyn nodi argymhellion ar wella perfformiad, gan gynnwys datblygu llwybrau. Mae'r materion a nodwyd yn yr argymhelliad yn cael sylw gan y Tasglu.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol. Mae'r Tasglu'n ddi-dâl a bydd ei adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol pan gyhoeddir ei ganfyddiadau.

**Argymhelliad 3 –** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i archwilio'r achos o blaid datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru yng nghyswllt y gwasanaethau hynny sy'n denu twristiaeth gynaliadwy yma a chyfleoedd i fuddsoddi mewn busnes.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae'r achos sy'n edrych ar bwysigrwydd economaidd y Doll Teithwyr Awyr eisoes yn cael ei ddatblygu.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 4** – Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar reolwyr Maes Awyr Caerdydd i fuddsoddi yn ei ddatblygiad ac i ddatblygu Uwchgynllun newydd, a chomisiynu asesiad annibynnol o hyfywdra'r maes awyr i'r dyfodol i weithredu fel porth rhyngwladol i deithwyr a nwyddau.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'r penderfyniad i fuddsoddi a'r gwaith o ddatblygu Uwchgynllun yn faterion i Faes Awyr Caerdydd ac ni ddylai'r sector cyhoeddus ymyrryd ynddynt. Fodd bynnag, mae Tasglu Maes Awyr Caerdydd wedi nodi'r materion a bydd yn cydweithio â Maes Awyr Caerdydd i ddatblygu hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Mater i'r sector preifat ydyw.

**Argymhelliad 5** – Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwell gwasanaeth bws cyflym, pwrpasol rhwng Maes Awyr Caerdydd a chanol y ddinas, ac archwilio opsiynau i ariannu'r gwasanaeth hwnnw gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill, pe bai hyn yn cael ei gefnogi gan yr asesiad annibynnol a awgrymwyd yn Argymhelliad 4.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflawni gwaith manwl ar wasanaethau bws cyflym, pwrpasol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Chanol y Ddinas.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym wrthi'n eu gwerthuso.

**Argymhelliad 6 –** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r achos busnes o blaid gwasanaeth trên aml, uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd, pe bai hyn yn cael ei gefnogi gan yr asesiad annibynnol a awgrymwyd yn Argymhelliad 4.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i flaenoriaethu, yn ein hymrwymo i ystyried cynyddu'r gwasanaethau ar reilffordd Bro Morgannwg fel bod gwasanaeth bob hanner awr. Byddai hynny'n dyblu nifer y gwasanaethau sy'n galw yng ngorsaf (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws. Bydd hyn yn bosibl ar ôl i Network Rail gwblhau'r rhaglen i Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd, sydd i fod i ddod i ben yn 2015. At hynny, rydym yn parhau i ariannu'r gwasanaeth bws gwennol poblogaidd rhwng Gorsaf (Maes Awyr

Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws a Maes Awyr Caerdydd, ac mae'r gwasanaeth wedi'i estyn yn ddiweddar i Ardal Fenter Sain Tathan.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni wyddys am rai ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 7** – Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar bob cyfrwng posibl i ddangos i'r Comisiwn Ewropeaidd yr effaith niweidiol y gall y canllawiau Cymorth Gwladwriaethol presennol ynglŷn â hedfan ei chael, a sut y gellid defnyddio Cymorth yn wahanol i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd fel cyrchfan sy'n cael ei ddewis gan deithwyr busnes rhyngwladol a thwristiaid.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i gychwyn. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ym Mehefin 2012 i gyfrannu at ymarfer casglu tystiolaeth y Comisiwn ar feysydd awyr a rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Roedd y Comisiwn yn glir ei fod yn croesawu mwy o drafodaeth ar y materion hyn ac y byddai'n fodlon ystyried cynigion penodol ar gyfer cymorth.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 8** – Dylai Llywodraeth Cymru integreiddio cysylltedd â meysydd awyr Cymru â'r polisi ar drafnidiaeth a seilwaith i Gymru gyfan, a cheisio sicrhau drwy drafodaeth fod gwell cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol yn cael eu darparu a bod gwasanaethau rheilffordd, megis y rhai i Abertawe a'r Cymoedd, yn cael eu trydaneiddio.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae gwella cysylltedd rhwng moddau teithio, gan gynnwys meysydd awyr Cymru, yn un o brif themâu'r polisi trafnidiaeth. Mae gennym ran weithredol yn y gwaith o lunio dyfodol seilwaith a gwasanaethau'r rheilffyrdd yng Nghymru. Paratoasom achosion busnes cadarn ar gyfer trydaneiddio Cledrau'r Cymoedd a'r brif reilffordd o Gaerdydd i Abertawe. Rydym yn parhau i gydweithio â'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail, er mwyn bwrw ymlaen â gwaith ehangach i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r rhwydwaith sy'n croesi'r ffin.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Nid oes unrhyw ymrwymiadau ariannol ychwanegol yn codi'n uniongyrchol o'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9** – Dylai Llywodraeth Cymru barhau i hwyluso ac ymrwymo i ymgysylltu effeithiol â Llywodraeth y DU ar bolisi porthladdoedd, yn cynnwys trafodaeth ynglŷn ag addasrwydd y setliad datganoli presennol ac unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol er budd Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â'u cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth i drafod materion yn ymwneud â phorthladdoedd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 10** – Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Strategaeth Cludo Nwyddau ddiwygiedig i Gymru, sydd â mwy o bwyslais ar gludo nwyddau ar y rheilffyrdd, erbyn diwedd 2012, a negodi'r anghenion cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng Nghymru ar gyfer Cyfnod Rheoli nesaf Network Rail.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a byddwn yn aros am ganlyniad yr adolygiad a fydd yn gorffen yn yr hydref.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Bydd unrhyw benderfyniad ar gamau pellach, gan gynnwys y goblygiadau cost, yn cael ei wneud ar ôl i'r adolygiad orffen yn yr hydref.

**Argymhelliad 11** – Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaethau dichonoldeb i ddatblygu morgludiant byr a logisteg porthladd-ganolog ym mhorthladdoedd Cymru i ganfod cyfleoedd posibl yn ogystal â rhwystrau rhag datblygu.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Daeth astudiaeth ddiweddar o'r potensial ar gyfer morgludiant byr o Gaerdydd, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, i'r casgliad fod y cyfleoedd i ddatblygu llwybrau dichonol yn brin. Byddai mantais cynnal peth gwaith ymchwil pellach i gyfleoedd datblygu'r cysylltiadau rhwng porthladdoedd ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio hyd at £50,000. Telir amdano trwy gyllidebau presennol yr adrannau.

**Argymhelliad 12** – Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo buddiannau porthladdoedd a gweithredwyr gwasanaethau fferi Cymru yng nghyswllt trafodaethau am wiriadau ffiniau mewn porthladdoedd a therfynau'r UE ar gyfer allyriadau sylffwr.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd ag Asiantaeth Ffiniau'r DU ac mae wrthi ar hyn o bryd yn trefnu cyfarfod i drafod y mater. Rydym am dderbyn yr argymhelliad yng nghyd-destun Datblygu Cynaliadwy, ein prif egwyddor drefniadol.

Mae swyddogion Dyfodol Cynaliadwy yn cydweithio'n llawn â'r UE, drwy Defra, ar ei adolygiad o ansawdd aer. Nid yw'r diwydiant wedi mynegi pryder yn uniongyrchol wrth Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cydweithio â Defra i fonitro effaith cydymffurfiaeth y sector morgludo â'r safonau newydd a gwyddom fod Irish Ferries yn poeni y gallai cynigion yr UE i estyn safonau llym ar gyfer allyriadau sylffwr i ddyfroedd yr holl aelodau arwain at gynnydd o 70 i 80% yng nghostau tanwydd y diwydiant fferi. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw sylwadau a wneir i Lywodraeth Cymru yn cael eu trosglwyddo i Defra.

Ysgrifennodd Mike Penning AS, Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Drafnidiaeth at y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn Chwefror 2012, i ofyn am gefnogaeth ar gyfer safbwynt negodi i'r DU ar gynigion ar gyfer Cyfarwyddeb Ewropeaidd newydd ar y sylffwr a geir mewn tanwyddau morol. Ymatebodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gan gefnogi'r safbwynt negodi arfaethedig i'r DU a amlinellwyd yn llythyr Mr Penning.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 13 –** Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i archwilio'r achos busnes o blaid trydaneiddio rheilffyrdd lliniaru ar Brif Lein Great Western i sicrhau y gall cynwysyddion cludo nwyddau ar y rheilffyrdd deithio'n hawdd i borthladdoedd Cymru ac oddi yno. Dylid argymell mesuriadau clirio hefyd ym mhob cynnig seilwaith cyfredol yn ymwneud â rheilffyrdd a phob cynnig i'r dyfodol, am yr un rheswm.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Bydd y cam nesaf tuag at drydaneiddio yn ymdrin â'r materion hyn. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl yn sgîl trydaneiddio, gan gynnwys rheilffyrdd lliniaru a mesuriadau clirio.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd ond byddai unrhyw benderfyniad i uwchraddio'r seilwaith yn amodol ar achos busnes a fyddai'n nodi'r gost.

**Argymhelliad 14** – Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar yr Adran Drafnidiaeth i gyflwyno prosiectau rheilffordd yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu hariannu o dan Gyfleuster Cysylltu Ewrop fel y gall Cymru elwa'n llawn o'r adnoddau sydd ar gael i ddatblygu'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (Trafnidiaeth).

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Rydym wedi bod yn cydweithio â'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y Rheoliadau sy'n cael eu llunio ar gyfer y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (Trafnidiaeth) a Chyfleuster Cysylltu Ewrop. O ganlyniad, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno i gynnwys Aberdaugleddau fel porthladd craidd, wedi'i gysylltu gan reilffordd cludo nwyddau graidd. Mae uwchraddio'r

rheilffordd wedi'i gynnwys fel prosiect dangosol â blaenoriaeth yn y Rheoliad drafft ar Gyfleuster Cysylltu Ewrop.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chael mwy o arian o Gyfleuster Cysylltu Ewrop.

**Argymhelliad 15** – Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei bwriadau o ran Ardaloedd Menter sy'n cynnwys porthladdoedd neu feysydd awyr yng Nghymru er mwyn i Gymru allu elwa'n llawn o'r cynllun hwn.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i gyflawni. Cyhoeddwyd y polisi Ardaloedd Menter ym Mai 2012 a gellir cael y manylion drwy'r ddolen ganlynol www.enterprisezones.wales.gov.uk

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i gyflawni a chaiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 16** – Dylai Llywodraeth Cymru adlewyrchu, ym mholisïau ynni Cymru, bwysigrwydd strategol porthladdoedd yn y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy a cheisio'r budd mwyaf posibl i Gymru o gyfleoedd ynni adnewyddadwy y DU.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae strategaethau Llywodraeth Cymru eisoes yn cydnabod pwysigrwydd porthladdoedd yng nghyswllt y gadwyn gyflenwi ynni. Mae pwysigrwydd porthladdoedd Cymru yn un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer fframwaith y Sector Ynni a'r Amgylchedd; mae'n bwysig iawn i banel y sector ac mae seilwaith strategol (gan gynnwys porthladdoedd) hefyd yn flaenoriaeth yn Ynni Cymru a lansiwyd gan y Prif Weinidog yn gynharach eleni.

Mae porthladdoedd hefyd yn angor pwysig i ddwy o'r tair Ardal Fenter sy'n gysylltiedig ag ynni.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae dociau Port Talbot yn geffyl blaen posibl yn y ras i fod yn borthladd lleoli a chynnal ar gyfer Atlantic Array, y prosiect ynni gwynt 1,500MW sy'n cael ei ddatblygu ar y môr gan RWE.

Bydd angen adfer llawer o dir harbwr allanol Port Talbot yn ogystal â Gorchymyn Diwygio Harbwr. Rydym wrthi'n gwerthuso costau posibl a threfniadau ariannu'r ystyriaethau rhag-gynllunio a thechnegol.

**Argymhelliad 17** – Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithredwyr porthladdoedd i wella profiad twristiaid yn eu cyfleusterau ac ymgynghori â

rhanddeiliaid posibl ynglŷn â'r ffordd orau o ariannu cyfleusterau docio a fydd yn denu llongau mordeithio.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Rydym eisoes wrthi'n cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, porthladdoedd, awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth i wneud yn siwr ein bod yn mynd ati mewn ffordd gydlynol.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 18** – Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo Cruise Cymru i ddyfeisio a gweithredu, ar y cyd â Chroeso Cymru, gynllun marchnata strategol i hyrwyddo pecyn twristiaeth Cymru a phorthladdoedd cyrchfan dethol yng Nghymru i weithredwyr mordeithio rhyngwladol.

**Ymateb: Derbyn**
Derbyniwn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n chwarae rhan flaenllaw yn hyrwyddo'r sector mordeithiau yng Nghymru ac mae hi eisoes wedi cymryd camau i gryfhau a chefnogi Cruise Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Ar hyn o bryd mae Croeso Cymru'n rhoi £12,000 y flwyddyn o arian cyfatebol i Cruise Cymru, ac mae wrthi'n ystyried y potensial ar gyfer rhoi mwy.

**Argymhelliad 19** – Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau yr ymdrinnir â datblygu porthladdoedd a meysydd awyr Cymru yn gynaliadwy drwy Gynlluniau Datblygu Lleol, ac annog awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd lle mae i effeithiau'r datblygiadau hynny oblygiadau rhanbarthol ehangach.

**Ymateb: Derbyn**
Mae paragraff 8.5.6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cynnwys darpariaethau i ddiogelu hygyrchedd porthladdoedd a meysydd awyr Cymru. Disgwyliwn i'r cyfleusterau hyn gael eu nodi yn y Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) a baratoir gan awdurdodau cynllunio lleol ac iddynt gynnwys polisïau lleol addas. Un o'r pethau sy'n profi cadernid CDLl yw eu cydymffurfiad â chynlluniau a strategaethau cyfagos ac felly disgwyliwn i'r holl awdurdodau lleol gydweithio a nodi effeithiau â goblygiadau rhanbarthol ehangach.

Mae cynllunio symlach yn rhan allweddol o'r model newydd ar gyfer Ardaloedd Menter. Mae prosbectws Ardaloedd Menter 2011 Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol (GDLl) fel ffordd seml a gweddol gyflym o roi caniatâd cyffredinol i fathau penodol o ddatblygu yn yr Ardaloedd. Mae is-ddeddfwriaeth yn galluogi awdurdodau cynllunio i baratoi GDLl bellach mewn grym ledled Cymru. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad yw Gorchmynion Datblygu Lleol yn briodol ym mhobman. Un agwedd ydynt ar y dull gweithredu hyblyg sydd gennym yn Ardaloedd Menter

Cymru, a fydd yn elwa ar y prosesau symlach ac effeithlon y mae awdurdodau cynllunio Cymru eisoes wedi'u sefydlu.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio o'r gwaith hwn.